
Siarad am

# Gynghorau Cymuned a Thref

Adroddiad 2024

Llywodraeth Cymru
Welsh Government











# Helo

**Mae 732 o gynghorau cymuned a thref yng Nghymru.**

**Maen nhw'n gyfrifol am lawer o wahanol wasanaethau lleol:**






**Mae cynghorau cymuned a thref i gyd yn wahanol faint — o gynrychioli cymunedau bach hyd at y cyngor tref mwyaf o dros 50,000 o bobl.**

Mae pob cyngor cymuned a thref wedi ethol cynghorwyr.

Mae yna etholiad bob 5 mlynedd lle mae pobl yn pleidleisio dros yr ymgeisydd maen nhw am eu cynrychioli. Cynhaliwyd yr etholiad diwethaf ym mis Mai 2022.

## Y materion

Dim ond **40%** o bobl ar draws Cymru wnaeth bleidleisio.

**Nid oedd digon o bobl yn sefyll fel ymgeiswyr.** O'r **7,883** o seddi cyngor tref a chymuned:



roedd **62%** yn ddiwrthwynebiad gan mai dim ond un ymgeisydd oedd yn sefyll.

ni chafodd **16%** eu llenwi oherwydd nad oedd neb yn sefyll mewn etholiad.

cafodd **22%** eu hymladd (etholiad) oherwydd bod mwy nag un ymgeisydd yn sefyll mewn etholiad.

**Ymgeisydd** — rhywun sy'n sefyll am etholiad.

## Siarad â phobl

Mae pleidleisio a chael dewis o ran pwy sy'n eich cynrychioli yn bwysig iawn. Mae'n golygu bod eich llais yn cael ei glywed mewn penderfyniadau am eich cymuned a'ch bywyd.

Roedd Llywodraeth Cymru eisiau archwilio pam nad yw pobl yn cymryd rhan. Felly, fe wnaethant sefydlu **Grŵp Gorchwyl a Gorffen Iechyd Democrataidd** i siarad â phobl ar draws Cymru.

**Mae'r adroddiad hwn yn dweud wrthych chi beth ddigwyddodd a beth wnaeth pobl ei ddweud.**



# Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Iechyd Democrataidd yn cynnwys gweithwyr proffesiynol o wahanol gefndiroedd, oedrannau a barn.

**Ein nod oedd archwilio'r canlynol:**

- pam nad yw cymaint o bobl yn ymgysylltu neu'n cymryd rhan
- dod o hyd i ffyrdd o wella ymwybyddiaeth fel bod pobl yn cymryd rhan
- sut i gynyddu amrywiaeth ymgeiswyr.

i **Amrywiaeth** – cael pobl o ystod o wahanol gefndiroedd a chredoau.

## Beth ddigwyddodd

Ym mis Rhagfyr 2022 cynhaliodd Llywodraeth Cymru arolwg YouGov. Fe wnaeth hyn gyrraedd **dros 1000** o bobl 16+ mlwydd oed ac roedd yn gofyn beth maen nhw'n ei wybod am gynghorau tref a chymuned.

Yna fe wnaethom ni'r canlynol:

- astudio ymchwil
- cynnal arolygon
- cynnal gweithdai
- cwrdd â grwpiau ffocws a siarad ag arbenigwyr
- cynnal arolwg dilynol YouGov yn 2024.

Fe wnaethom gynnwys a gwrando ar y canlynol:

- pobl o bob cwr o Gymru
- pobl ifanc
- sefydliadau cymunedol
- cynghorau cymuned a thref ac awdurdodau lleol.

**Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys:**

- crynodeb o'r holl ganfyddiadau
- canlyniadau arolygon YouGov 2022 a 2024
- adborth gan bobl ar draws Cymru
- adborth gan bobl ifanc
- adborth gan sefydliadau
- adborth gan gynghorau cymuned a thref
- adborth gan gynghorau sir/bwrdeistref sirol (cyfeirir atynt yn aml fel awdurdodau lleol)
- llwybrau i wella cyfranogiad yn y dyfodol.





# Crynodeb o'r canfyddiadau

**Roedd prif ganfyddiadau'r ymchwil yr un peth â'r hyn a ddywedodd pobl wrthym ar draws Cymru.**

## Canfyddiad – beth mae pobl yn ei feddwl

- Nid yw pobl yn gwybod digon am yr hyn mae cynghorau'n ei wneud.
- Nid oes gan eraill farn gadarnhaol am gynghorau na chynghorwyr.
- Mae angen i gynghorau cymuned a thref fod yn agored i newid a chael diwylliant mwy cadarnhaol.

## Cyfathrebu – codi ymwybyddiaeth

- There needs to be more awareness of what community and town councils are and what they do.
- Communicating through community notice boards and local press doesn't raise awareness or reach enough people.
- People don't feel included or able to give feedback.

## Gwrthdaro – y diwylliant

- Mae cynghorwyr newydd yn teimlo nad oes croeso i syniadau newydd ac nid ydynt yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt gan gynghorwyr hŷn.
- Mae yna broblemau o ran sut yr ymdrinnir â chwynion.
- Nid yw cynghorau cymuned a thref ledled Cymru yn cael eu rhedeg yr un ffordd. Mae rhai yn fwy agored i syniadau newydd ac uchelgeisiol nag eraill. Mae rhai yn darparu mwy o brosiectau a gwasanaethau.

## Ymgysylltu – cynnwys pobl

- Mae angen i gynghorau cymuned a thref gynnwys pawb ac adlewyrchu amrywiaeth eu cymunedau.
- Mae pobl yn fwy tebygol o gymryd rhan os ydyn nhw'n teimlo y gallan nhw wneud gwahaniaeth.
- Nid yw pobl ifanc yn teimlo bod eu cynghorau cymuned a thref yn gwrando arnyn nhw.

**Democratiaeth** – mae pobl yn dewis eu llywodraeth drwy bleidleisio drosti.

## Strwythurau – sut mae pethau'n gweithio

- Mae systemau yn ddryslyd ac yn atal pobl rhag cymryd rhan.
- Mae systemau yn gwneud democratiaeth yn anodd.
- Mae angen i bopeth fod yn glir, yn hawdd ei ddefnyddio ac yn agored i bawb.
- Mae pryderon bod costau'n effeithio ar etholiadau.
- Mae angen i gynghorau cymuned a thref fod yn glir ynghylch sut maen nhw'n rheoli eu cyllidebau a delio ag unrhyw faterion ariannol difrifol neu dwyll.



# Yr Arolygon YouGov

Ym **mis Rhagfyr 2022** cynhaliodd Llywodraeth Cymru arolwg YouGov. Fe wnaeth hyn gyrraedd **dros 1000** o bobl 16+ mlwydd oed ac roedd yn gofyn beth maen nhw'n ei wybod am gynghorau tref a chymuned.

Yn 2024 fe wnaethom gynnal arolwg dilynol YouGov.

**Pobl nad oeddent yn gwybod llawer os oes unrhyw beth am gynghorau cymuned a thref.**

- Yn 2022: 66%
- Yn 2024: 68%

**Pobl oedd yn gwybod llawer iawn neu rywfaint am gynghorau tref a chymuned.**

- Yn 2022: 28%
- Yn 2024: 28%

**Pobl nad oedd wedi cael unrhyw gysylltiad â'u cymuned neu gyngor tref yn ystod y 12 mis diwethaf.**

- Yn 2022: 79%
- Yn 2024: 83%

**Pobl oedd ag ychydig yn unig o ddiddordeb cymryd rhan, neu ddim diddordeb o gwbl mewn cymryd rhan.**

- Yn 2022: 82%
- Yn 2024: 69%

**Pobl fyddai'n 'debygol/bendant yn ystyried' dod yn gynghorydd.**

- Yn 2022: 21%
- Yn 2024: 34%

**Rhesymau dros beidio â bod yn gynghorydd cyngor cymuned:**


- diffyg diddordeb
- diffyg amser
- anfodlonrwydd â'r system
- pobl yn teimlo eu bod nhw'n rhy hen
- diffyg ymwybyddiaeth o'r hyn maen nhw'n ei wneud.





# Adborth gan y cyhoedd

Cafwyd **753** o ymatebion i'r arolygon.



Roedd **79%** yn ymwybodol o gynghorau tref a chymuned.

## Eu perthynas gyda chynghorau tref a chymuned.

- → Nid oedd rhai pobl yn gwybod beth oedd cynghorau tref a chymuned yn ei wneud.
- → Roedd pobl yn cymysgu cynghorau cymuned a thref gyda awdurdodau lleol.
- → Roedd yn well gan bobl wirfoddoli i sefydliadau oherwydd ei fod yn fwy hyblyg ac yn ffitio'n well â'u diddordebau.
- → Dywedodd llawer o bobl nad oedden nhw wedi cael ymatebion gan eu cymuned neu gyngor tref. Ni chafwyd ateb i e-byst neu ymholiadau. Os oedden nhw'n ateb, roedd yn cymryd misoedd.

## Ynglŷn â dod yn ymgeisydd

Dywedodd pobl na fydden nhw'n dod yn ymgeisydd am y rhesymau canlynol:

- doedd hi ddim yn hawdd bod yn rhan o gynghorau
- doedd cynghorau ddim yn teimlo'n groesawgar i bobl newydd
- roedd yn well ganddyn nhw wirfoddoli mewn sefydliadau cymunedol
- y gost ariannol
- nid oedd ganddynt ddigon o amser
- doedden nhw ddim yn rhan o blaid wleidyddol felly byddai'n rhaid iddyn nhw sefyll fel annibynnwr sy'n anoddach

## Beth wnaeth pobl ei ddweud:

- Mae cynghorwyr wedi bod yn y swydd am gyfnod rhy hir ac yn rhy geidwadol eu ffyrdd.
- Mae'n ymddangos nad yw llawer o gynghorwyr yn deall eu rolau. Mae'n well ganddynt fynychu cyfarfodydd ond peidio ag ymgysylltu â phreswylwyr.
- Mae diffyg democrataidd oherwydd nad yw pobl leol yn gweld manteision na thystiolaeth gwaith cynghorau cymuned.
- Rwyf wedi ystyried cysylltu â nhw am fy niddordeb mewn adeilad lleol yr wyf wedi clywed bod ganddynt rôl ynddo, ond rwy'n wyliadwrus, ar ôl clywed eu bod yn gweithredu fel 'siop gaeedig' nad oes ganddi ddiddordeb mewn bod yn agored nac ymgysylltu â'r cyhoedd.



- Does ganddyn nhw ddim pŵer i helpu.
- Nid yw'n ymddangos bod y cyfarfodydd yn cyflawni unrhyw beth. Mae'n ymddangos bod y pynciau mae gweithgorau'n gweithio arnynt yn waith dim ond 1 neu 2 gynghorydd. Pe bai'n rhaid i bob cyngor cymuned yng Nghymru sefydlu gweithgorau ar bob un o'r pynciau allweddol maen nhw'n yn gyfrifol amdanynt neu y gofynnir iddynt am gyngor, yna byddai'n werth cymryd rhan.
- Rwy'n dod o'r demograffig anghywir h.y. dyn wedi ymddeol sydd wedi symud o Loegr. Mae'r cyngor cymuned angen cynrychiolwyr iau o gefndir amrywiol.
- Diffyg mynediad i'r anabl i Siambr y Cyngor.
- Mae'r Cyngor Tref yn ymddangos fel clic o unigolion gyda throsiant uchel o gynghorwyr i gyd yn gyfetholedig. Ni allaf gofio etholiad yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

# Adborth gan bobl ifanc

## Eu perthynas gyda chynghorau tref a chymuned.

→ Dywedodd **25%** nad oedden nhw'n gwybod beth oedd cynghorau cymuned yn ei wneud. Roedden nhw'n drysu cynghorau tref a chymuned gydag awdurdodau lleol.

→ Doedd **46%** ddim yn gwybod beth yw democratiaeth.

→ Mae **81%** yn ymgysylltu â chyngor cymuned a thref ar gyfer digwyddiadau fel diwrnodau hwyl, noson tân gwyllt a'r Nadolig.

→ Dywedodd **41%** nad ydyn nhw'n gwybod sut i gysylltu â'u cyngor neu gynghorwyr lleol.

### Dywedodd pobl ifanc fod angen i gynghorau cymuned a threfi wneud y canlynol:

- gwrando mwy ar bobl ifanc a gweithio gyda nhw
- bod yn fwy gweladwy, dangos beth maen nhw'n ei wneud a hyrwyddo eu hunain
- bod yn fwy agored a chroesawgar
- gwneud pethau'n fwy o hwyl
- gweithio gyda chynrychiolwyr ieuenctid, cynghorau ieuenctid, grwpiau ieuenctid ac ysgolion
- gwella cyfathrebu a defnyddio'r systemau mae pobl ifanc yn eu defnyddio
- cael gwefannau gwell, sy'n hawdd eu defnyddio
- talu pobl ifanc os ydyn nhw'n cymryd rhan.

### Pethau oedd yn bwysig i bobl ifanc:

- gwella ansawdd bywyd yn eu cymunedau
- mwy o gyfleoedd a gweithgareddau
- eu cynnwys mewn penderfyniadau
- eu hiechyd a'u lles.

## Dywedodd pobl ifanc:

Dydyn nhw ddim yn gwybod amdanyn nhw na beth maen nhw'n ei wneud - methu cysylltu â rhywun nad ydych chi'n gwybod sy'n bodoli.

Yn lleol mae straeon gwael am rai cynghorwyr tref o ran dadleuon a phobl yn ymddiswyddo drwy'r amser. Nid ydynt yn ymddangos yn lleoedd cadarnhaol i fod.

Ddim yn teimlo eu bod nhw'n gwneud llawer/bod ganddyn nhw ddiddordeb ynom ni.

Rwy'n teimlo ei bod yn lefel o ddemocratiaeth nad oes ei hangen ac rwy'n credu y byddai'n well annog pobl i sefydlu grwpiau gweithredu lleol i gyflawni newid.





## Ynglŷn â bod yn gynrychiolydd ieuenctid neu'n ymgeisydd

Dywedodd **57%** na fydden nhw eisiau bod yn gynrychiolydd ieuenctid.

Dywedodd **74%** na fydden nhw eisiau bod yn gynghorydd.

Dywedodd **62%** y byddai ganddyn nhw ddiddordeb cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol.

**Ni fyddent yn bod yn ymgeisydd am y rhesymau canlynol:**

- nid oedd ganddynt ddiddordeb
- nid oedd ganddynt ddigon o amser
- doedden nhw ddim gwybod digon amdano
- doedd cynghorau ddim yn eu cynrychioli nhw— oedran ac ethnigrwydd.

## Dywedodd pobl ifanc:

Roeddwn i'n un (cynrychiolydd ieuenctid ar y cyngor) - roedd o'n dda i fi ond efallai ddim yn helpu pobl ifanc eraill llawer, synnu a chodi ymwybyddiaeth ymysg cynghorwyr eraill.

Mae llawer o aelodau'r cyngor yn ddynion gwyn.

Nid yw cynghorwyr yn deall materion sy'n effeithio ar bobl ifanc.

Hoffwn gael dweud fy dweud am yr hyn sy'n digwydd yn agos ataf.

Mae gen i ddiddordeb... ond dydw i ddim yn siŵr a oes gan ble rwy'n byw gyngor cymuned ac mae ymgysylltu blaenorol mewn gweithgareddau tebyg wedi bod yn brofiad negyddol lle nad oeddem yn teimlo'n groesawgar.

Bydden i'n trio delio gyda phobl sydd ddim yn fodlon gwrando ar opsiynau eraill, 'dyma sut rydym ni'n ei wneud fel arfer, felly wnawn ni ddim ei newid.

Ni chaniateir i ni fod yn rhan ohonynt.









# Adborth gan y sector gwirfoddol
**(Elusennau a sefydliadau)**

## Eu perthynas gyda chynghorau tref a chymuned.

Roedd **75%** yn ymwybodol o gynghorau cymuned.

Roedd gan y sector gwirfoddol farn wahanol ar yr hyn y dylai cynghorau fod yn ei wneud.

Maen nhw'n gweithio mewn partneriaeth â nhw ar gyfer ceisiadau ariannu a cheisiadau eraill.

Weithiau roedd camddealltwriaeth ynghylch rolau a chyfrifoldebau.

Byddai'r sector gwirfoddol yn hoffi cyfathrebu agored.

**Mae'r rhwystrau i weithio yn y dyfodol yn cynnwys:**

- cyfathrebu gwael
- diffyg dealltwriaeth o rolau neu gyfrifoldebau
- diffyg adnoddau
- diffyg sgiliau a gwybodaeth
- ofn cam-drin.

## Ynglŷn â dod yn ymgeisydd

Dywedodd pobl na fydden nhw am fod yn ymgeisydd am y rhesymau y canlynol:

- eu llwyth gwaith
- cyfrifoldebau gofalu
- diffyg talu costau.

# Adborth gan gynghorau cymuned a thref ac awdurdodau lleol

## Eu perthynas gyda chynghorau tref a chymuned.

Roedd yr hyn oedd yn atal cyfranogiad yn cynnwys:

- diwylliant yn y cyngor
- llwyth gwaith ac oriau gwaith
- safbwyntiau negyddol
- diffyg amser
- ofn cam-drin.

## Ynglŷn â dod yn ymgeisydd

Dywedodd **30%** o gynghorwyr y byddai llwyth gwaith yn eu hatal rhag sefyll yn yr etholiad lleol nesaf.

Dywedodd pobl na fydden nhw am fod yn ymgeisydd am y rhesymau y canlynol:

- llwyth gwaith
- ofn cam-drin
- doedd ganddyn nhw 'ddim diddordeb'
- diffyg talu costau
- cyfrifoldebau gofalu.

Pethau a allai annog pobl i gymryd rhan:

- ymgyrchoedd cyfryngau cadarnhaol
- cefnogaeth i sefyll fel ymgeisydd annibynnol
- cefnogaeth i gynghorwyr newydd
- absenoldeb â thâl i fod yn gynghorydd.

> Mae profiad yn dangos fy mod i'n cael fy ngweld fel rhywun sy'n codi trwbl gan fyd mod yn codi llais dros bethau rwy'n teimlo sy'n deg ac fel arfer rwy'n cael fy anwybyddu gan glerc y dref, felly nid wyf byth yn cael ymgysylltu â chynrychiolydd etholedig.

> Nid yw'n werth sefyll, mae'n glwb i ddynion. Gwleidyddiaeth plaid yw'r cyfan... plaid yn gyntaf, pobl, cymuned, tref olaf. Does neb yn gwrando arnoch chi fel merch ac yn ymgeisydd annibynnol.

# Llwybrau ar gyfer y dyfodol

Rydym ni wedi datblygu llwybrau posibl a allai wella pethau ar gyfer y dyfodol.

## Llwybr 1
## Ailadeiladu cynghorau cymuned

Mae hyn yn ymwneud â chynyddu ymgysylltiad a chyfranogiad â chymunedau. Mae ganddo 5 thema.

1. **Gwella gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o gynghorau cymuned.**
2. **Gwneud cynghorau cymuned yn fwy cynhwysol a chynyddu amrywiaeth.**
3. **Gwella sgiliau.**
4. **Ei gwneud hi'n haws i bobl ddod yn gynghorwyr yn y dyfodol.**
5. **Newid diwylliant cynghorau a gwella sut maen nhw'n gweithio.**

## Llwybr 2
## Moderneiddio

Efallai ei bod yn bryd newid y system a gwneud pethau'n wahanol.

Gallai grŵp gweinidogol feddwl am wahanol fodelau. Byddent yn cael cymorth gan sefydliadau fel:

- Un Llais Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Gallen nhw wneud y canlynol:

- edrych ar wledydd eraill i weld beth allai weithio yng Nghymru
- archwilio swyddogaethau, pwerau a dyletswyddau gwahanol gynghorau
- edrych ar y berthynas gydag awdurdodau lleol a chynghorau cymuned a thref
- edrych ar yr adnoddau a'r cyllidebau sydd ar gael
- edrych ar wahanol brosesau etholiadol.

## Ymchwil pellach

Mae angen ymchwil pellach i helpu dyfodol cynghorau cymuned, pa un bynnag o'r 2 lwybr fydd yn cael ei ddewis.

Byddai newid yn cymryd amser, adnoddau ac arian, ond gallai:

- wella ymwybyddiaeth
- sicrhau bod mwy o bobl yn cymryd rhan ac yn gwella democratiaeth
- cynyddu amrywiaeth yr ymgeiswyr sy'n sefyll mewn etholiad.

## Diolch am ddarllen hwn

**Gallwch ddarllen mwy yma:**

[llyw.cymru/iechyd-democrataidd-cynghorau-tref-chynghorau-cymuned](llyw.cymru/iechyd-democrataidd-cynghorau-tref-chynghorau-cymuned)

